

# Cysylltedd digidol - band eang

Awst 2022

## 1. Cyflwyniad

**1.** Ar 11 Mai 2022, cynhaliodd y Pwyllgor ymchwiliad undydd i gysylltedd digidol a chanolbwyntiodd ar fand eang. Clywodd y Pwyllgor gan:

- Ben Allwright, Prif Swyddog Gweithredol - Ogi
- Rhian Connick, Pennaeth Ffederasiwn Cenedlaethol Sefydliadau'r Merched Cymru
- Constance Dixon, Cyfarwyddwr Partneriaeth Cymru - Openreach
- Dr Sian Phipps, Aelod dros Gymru - Panel Defnyddwyr Gwasanaethau Cyfathrebu
- Hywel Wiliam, Cadeirydd, Pwyllgor Cyngori Ofcom yng Nghymru
- Elinor Williams, Pennaeth Materion Rheoleiddiol, Ofcom Cymru

**2.** Mae cyflwyniadau ysgrifenedig a fu o gymorth i waith y Pwyllgor ar gael yma – [cyflwyniadau.ysgrifenedig](#).

**3.** Ar 15 Mehefin 2022, ymddangosodd y Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd gerbron y Pwyllgor ar gyfer sesiwn graffu gyffredinol. Rhoddodd hyn gyfle i'r Pwyllgor ofyn am am eu barn ar nifer o faterion a godwyd yn y dystiolaeth.



## 2. Lefelau cysylltedd digidol yng Nghymru

**4.** Mae telathrebu yn fater a gedwir yn ôl, sy'n golygu bod ymyriadau Llywodraeth Cymru yn y maes hwn wedi eu cyfyngu i gyllid grant a defnyddio ysgogiadau polisi datganoledig – fel cynllunio ac ardrethi busnes – i annog buddsoddiad preifat. Nodir yn Strategaeth Ddigidol Llywodraeth Cymru:

*"Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am gysylltedd digidol a pholisi telathrebu. Mae'r rhain yn dal i fod yn faterion a gadwyd yn ôl nad yw Llywodraeth Cymru yn gyfrifol amdanynt ac nad ydynt yn cael unrhyw gyllid datganoledig.*

[...]

*Byddwn yn buddsoddi i gefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau lle ceir achos o blaid hynny, fodd bynnag, rhaid inni ganolbwyntio hefyd ar sicrhau bod Llywodraeth y DU yn ysgwyddo'i chyfrifoldebau yng Nghymru."*

**5.** Yn 2014, gallai 55% o eiddo preswyl gael mynediad at fand eang ar gyflymder o 30 Megabit yr eiliad (Mbps) neu uwch, o gymharu â 75% ar draws y Deyrnas Unedig. Erbyn 2021, roedd y ffigur hwn wedi cynyddu i 94% o'i gymharu â chyfartaledd y Deyrnas Unedig, sef 96%.

**6.** Dros yr wyth mlynedd diwethaf, mae'r bwlch rhwng argaeledd band eang cyflym iawn yng Nghymru a chyfartaledd y Deyrnas Unedig wedi lleihau'n aruthrol.

Darpariaeth i eiddo gan rwydweithiau band eang sefydlog yng Nghymru o gymharu â chyfartaledd y Deyrnas Unedig, 2021		
Metrigau	Cymru	Y Deyrnas Unedig
Ffeibr llawn <sup>1</sup>	27%	28%
300 Mbps neu gyflymach	44%	65%
100 Mbps neu gyflymach	46%	66%
30 Mbps neu gyflymach	94%	96%
10 Mbps neu gyflymach	97%	98%

<sup>1</sup> Darperir y cysylltiad o'r gyfnewidfa i'r eiddo yn gyfan gwbl dros ffeibr optegol. Yn gyffredinol, nid yw pellter i'r eiddo yn effeithio ar y cyflymder a ddarperir.

Cyflymder llwytho i lawr llai na 10 Mbps neu gyflymder llwytho i fyny llai nag 1 Mbps	3%	2%
---	----	----

*Ffynhonnell: Cysylltu'r Gwledydd Ofcom 2021 Adroddiad rhyngweithiol. Mae ffigurau ar gyfer cyflymder o 10 Mbps neu lai ar gyfer pob eiddo, tra bod ffigurau eraill ar gyfer eiddo preswyl yn unig.*

## Cysylltu safleoedd a adawyd ar ôl

**7.** Mae Ofcom yn amcangyfrif na all tua 15,000 o adeiladau (1%) gael gwasanaeth band eang ar gyflymder llwytho i lawr o 10Mbps o leiaf a chyflymder llwytho i fyny o 1Mbps o rwydweithiau sefydlog neu ddiwifr sefydlog.

**8.** Dywedodd Elinor Williams (Ofcom) y bu cynnydd nodedig o ran darparu mynediad at fand eang dros y pum mlynedd diwethaf. Roedd y gwelliant o ganlyniad i fuddsoddiad a gweithgarwch y sector preifat, wedi ei ategu gan amgylchedd polisi cadarnhaol gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig, sydd wedi ei nodi yn ei datganiad strategol o flaenoriaethau, ac amgylchedd rheoleiddio cadarnhaol gan Ofcom. Daeth i'r casgliad bod angen dal ati er mwyn cyrraedd y canrannau olaf hynny. Roedd o'r farn bod ymyriadau cyhoeddus yn mynd i fod yn hanfodol er mwyn cysylltu'r canrannau olaf hynny.

**9.** Eglurodd bod cyflwyno darpariaeth a arweinir gan y farchnad yn gwella argaeledd mewn ardaloedd trefol yn gyntaf ac yna ardaloedd gwledig, gydag ardaloedd anodd eu cyrraedd yn gweld gwelliannau yn olaf, o'r hyn a welwyd gyda chyfleustodau eraill. Nid yw telathrebu yn wahanol. Cymharodd y sefyllfa â mynediad at deledu daearol digidol, lle gall 97.8 y cant o Gymru gael mynediad at wasanaethau, ond y penderfynwyd ei bod yn rhy gostus i fynd ymhellach. Dywedwyd hefyd bod yn rhaid i bawb nad oedd yn gallu cael teledu daearol digidol ddefnyddio lloeren. Daeth i'r casgliad mai penderfyniad polisi i lywodraethau oedd penderfynu pryd i ddod ag ymyriad cyhoeddus i ben.

**10.** Mae Ffederasiwn Cenedlaethol Sefydliad y Merched wedi cynnal sawl arolwg ar ganfyddiadau o gysylltedd digidol. Daeth i'r casgliad a ganlyn:

*"The research findings have highlighted the digital divide between rural and urban areas. Further investment is needed in rural infrastructure to enable rural families, farm businesses and others to capitalise on digital connectivity opportunities and not be left behind."*

**11.** Ar 8 Mehefin 2022, cyhoeddodd y Dirprwy Weinidog ddatganiad ysgrifenedig<sup>2</sup> ar Ddyfodol Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus Gwasanaeth Awyr Ynys Môn – Caerdydd. Yn y datganiad hwnnw, cyhoeddodd y Dirprwy Weinidog £4.2 miliwn o gyllid ar gyfer Canolfan Ragoriaeth Prosesu Signalau Digidol Prifysgol Bangor "i ddod â chysylltiadau band eang 5G drwy geblau opteg ffeibr i ardaloedd anoddach eu cyrraedd". Byddai pedwar cant o adeiladau ar Ynys Môn nad oes ganddynt fynediad at fand eang cyflym iawn yn rhan o arbrawf. "Bydd rhan darparu band eang y prosiect yn para 18 mis a bydd yn caniatáu i gwsmeriaid gael eu cysylltu cyn gynted ag y bydd y safle cyntaf yn fyw a bydd yn parhau drwy 2025".

### **Datrysiadau amgen ar gyfer yr 1% sy'n weddill**

---

**12.** Yn ei adroddiad Cysylltu'r Gwledydd (2021), tynnodd Ofcom sylw at yr angen i lywodraethau ystyried dewisiadau amgen yn lle band eang sefydlog:

*"bydd rhai ardaloedd lle bydd y gost o osod ffeibr llawn yn afresymol. Gallai atebion amgen fel Mynediad Diwifr Sefydlog (FWA) a'r genhedlaeth ddiweddaraf o loerenni ddarparu'r cysylltedd gorau nesaf ar gyfer y nifer gymharol fach hynny o safleoedd mewn ardaloedd gwledig na chânt eu gwasanaethu gan osodiadau rhwydwaith eraill."*

**13.** Awgrymodd Ofcom y gallai diffyg ymwybyddiaeth ymysg y cyhoedd o ddewisiadau amgen fod yn arafu'r defnydd:

*"Mae data Ofcom yn awgrymu bod yna lawer iawn o safleoedd a allai elwa o dechnolegau darpariaeth amgen, ond nid yw defnyddwyr yn ymwybodol o'r opsiynau. Yn yr un modd, mae yna gartrefi a busnesau nad ydynt yn ymwybodol bod ffeibr llawn ar gael yn eu hardal neu o'i fanteision posib."*

**14.** Dywedodd Ben Allwright (Ogi) er mai cysylltiad ffeibr oedd y dechnoleg fwyaf cadarn a diogel, byddai technolegau amgen yn cyflawni rôl yn yr eiddo mwyaf anodd eu cyrraedd. Dywedodd fod datblygiadau technolegol diweddar yn golygu y gall y dewisiadau amgen hyn ddarparu gwasanaethau gwych pan gânt eu defnyddio yn y ffordd gywir. Ychwanegodd fod canfyddiad mai'r ateb gorau oedd ffeibr llawn ond y gallai anghenion rhai cwsmeriaid gael eu diwallu'n gyfan gwbl drwy gysylltiad 5G. Cytunodd Constance Dixon (Openreach), gan ddweud mai'r gwir amdani yw y bydd y 0.5 y cant neu'r 1 y cant olaf yn wirioneddol heriol, ac y bydd angen i ddiwydiant a'r Llywodraeth ddod at ei gilydd i ddarganfod beth fydd yr ateb.

---

<sup>2</sup> [https://gov.wales/written-statement-future-ynys-mon-cardiff-public-service-obligation-pso-air-service#:~:text=page%20via%20Twitter-,The%20Ynys%20Mon%20%E2%80%93%20Caerdydd%20Cyhoedd%20Gwasanaeth%20Rhwymedigaeth%20\(PSO\)%20air,pob%20cymorth%20argyfer%20y%20gwasanaeth](https://gov.wales/written-statement-future-ynys-mon-cardiff-public-service-obligation-pso-air-service#:~:text=page%20via%20Twitter-,The%20Ynys%20Mon%20%E2%80%93%20Caerdydd%20Cyhoedd%20Gwasanaeth%20Rhwymedigaeth%20(PSO)%20air,pob%20cymorth%20argyfer%20y%20gwasanaeth)

---

Dywedodd na fydd un ateb yn addas i bawb - bydd yn gyfuniad o dechnolegau sefydlog, diwifr, lloeren a thechnolegau gwych eraill a fydd yn cael eu datblygu dros yr ychydig flynyddoedd nesaf hefyd.

**15.** Yn ei adroddiad ar seilwaith cyfathrebu digidol (2020), daeth y Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol (NIC) i'r casgliad:

*"Credwn fod gwneuthurwyr polisi wedi rhoi gormod o sylw i hyrwyddo technoleg ffeibr i'r cartref yn y DU a dim digon ar wella darpariaeth band eang symudol, gan gynnwys defnyddio cysylltiadau 4G a 5G i ddarparu gwasanaethau band eang yn y cartref yn hytrach na chysylltiadau ffeibr, neu cyn hynny. Mae'r DU ar ei hôl hi o ran y rhan fwyaf o wledydd eraill yn hyn o beth, a dim ond 3% o gyfanswm y traffig data yn y DU sy'n cael ei gludo dros rwydweithiau symudol heddiw, sy'n llawer llai nag yn y rhan fwyaf o wledydd eraill. Credwn y gall ac y dylai Cymru fod yn gwneud mwy gyda'i seilwaith symudol."*

**16.** Cytunodd Rhian Connick nad oedd cwsmeriaid yn ymwybodol y gallent gael mynediad at fand eang drwy eu rhwydwaith symudol. Credai Hywel Wiliam fod "angen inni edrych ar atebion amgen - atebion technolegol eraill a fyddai'n dod â'r gwasanaethau yma i'r defnyddwyr," - er enghraifft, lloeren.

**17.** O ran cynorthwyo unigolion neu gymunedau sy'n chwilio am ateb i'w problemau cysylltedd, pwysleisiodd yr holl gyfranwyr fod cyfathrebu gwell yn hanfodol. Dywedodd Dr Sian Phipps (Panel Defnyddwyr Cyfathrebu) fod rhai cymunedau wedi elwa ar gael arbenigwyr ynddynt a allai roi cyngor a gyrru'r prosiect yn ei flaen. Fodd bynnag, ni fyddai hyn bob amser yn wir ac roedd angen cyfeirio pobl at gymorth mewn awdurdodau lleol. Ychwanegodd Rhian Connick fod gan lawer o awdurdodau lleol 'swyddogion digidol' sy'n gallu cynghori cwsmeriaid, ond yn aml nid oedd y cwsmeriaid yn gwybod eu bod yn bodoli nac yn gwybod sut i gael gafael arnynt.

**18.** Pwysleisiodd Elinor Williams bwysigrwydd cyfathrebu'n glir â chwsmeriaid ynghylch y dewisiadau sydd ar gael. Dywedodd fod angen i derminoleg fod yn gyson, er mwyn sicrhau bod cwsmeriaid cyffredin yn gallu gwneud penderfyniadau gwybodus.

## **Cau'r bwllch 100 Mbps +**

**19.** Mae'r bylchau ehangaf mewn argaeledd cyflymder band eang rhwng cyfartaleddau Cymru a'r Deyrnas Unedig i'w gweld wrth gymharu cysylltiadau sy'n 100 Mbps ac yn gyflymach. Dywedodd Constance Dixon fod gan Openreach fap ffordd i ledaenu mynediad at ffeibr llawn i

fwy o Gymru ac mae'r uwchraddio hwn yn golygu y bydd llawer yn cael mynediad at gyflymder o gigabit neu fwy. Dywedodd Ben Allwright fod Ogi a gweithredwyr eraill yn edrych ar gyflwyno ffeibr llawn fel y bydd gan bob eiddo fynediad at fand eang o 10 Mbps neu gyflymach ar wahân i'r 1% o eiddo sy'n anodd eu cyrraedd.

## Uwchraddio llinellau tir i dechnoleg ddigidol

- 20.** Yn y gorffennol, roedd galwadau ffôn llinell dir yn defnyddio'r Rhwydwaith Ffôn Newid Cyhoeddus. Penderfynodd BT roi'r gorau i ddefnyddio'r Rhwydwaith erbyn Rhagfyr 2025 ac mae darparwyr eraill wedi dweud eu bod yn bwriadu dilyn amserlen weddol debyg. Yn y dyfodol, bydd galwadau llinell dir yn defnyddio technoleg ddigidol o'r enw Protocol Llais dros y Rhyngrwyd, sy'n defnyddio cysylltiad band eang.
- 21.** Unwaith y bydd yr ymfudo o'r Rhwydwaith Ffôn Newid Cyhoeddus wedi ei gwblhau, bydd angen cysylltiad addas arall ar gwsmeriaid sy'n dymuno parhau i gael ffôn llinell dir, ac nad oes ganddynt fand eang yn barod.
- 22.** Yn wahanol i ffonau traddodiadol, ni fydd ffôn sydd wedi ei gysylltu â llwybrydd band eang yn gweithio pan fydd toriad yn y cyflenwad pŵer, gan fod y llwybrydd yn cael ei bŵer o'r prif gyflenwad. Os ydych chi'n dibynnu ar eich llinell dir, rhaid i'ch darparwr sicrhau y gallwch gysylltu â'r gwasanaethau brys yn ystod toriad yn y cyflenwad pŵer.
- 23.** Dywedodd Elinor Williams fod y mudo i Brotocol Llais dros y Rhyngrwyd yn fenter a arweinir gan y diwydiant. Roedd Ofcom yn monitro'r mudo ac mae yna setiau penodol o reoliadau a chanllawiau i'r diwydiant eu dilyn i wneud yn siŵr bod y mudo yn digwydd mor llyfn â phosib. Nododd fod BT wedi rhoi saib ar y mudo yn ddiweddar.
- 24.** Dywedodd Elinor Williams fod Ofcom yn ymgysylltu â rhanddeiliaid i egluro'r dechnoleg newydd. Rhaid i ddarparwyr sicrhau bod cwsmeriaid yn cael eu cefnogi a, lle bo angen, bod mesurau lliniaru ar waith. Er enghraifft, ar gyfer y defnyddwyr mwyaf agored i niwed, dylai darparwyr ddarparu batri wrth gefn pe bai toriad yn y cyflenwad pŵer.
- 25.** Dywedodd Ben Allwright fod Protocol Llais dros y Rhyngrwyd yn rhan o ddilyniant naturiol technoleg teleffoni, gan ei ddisgrifio fel llinell ffôn sy'n cael ei chludo dros ddull traffig gwahanol, ond sy'n darparu'r un peth i'r un dyfeisiau. Ychwanegodd mai'r drafferth yw nad yw bob amser yn gwneud hynny, a'r peth pwysig yw gwneud yn siŵr bod defnyddwyr yn ymwybodol os oes angen batri wrth gefn ac ati, a bod y pethau hynny'n cael eu hystyried o ddifrif. Os nad oes ganddynt wasanaeth ffôn amgen, roedd angen ystyried hynny o ddifrif pan fydd y gweithredwr yn darparu'r gwasanaeth iddynt yn lle eu llinell ffôn draddodiadol.

**26.** Dywedodd Dr Sian Phipps y gallai'r mudo i Brotoocol Llais dros y Rhyngwrwd arwain at oblygiadau sylweddol i rai grwpiau, gan gynnwys pobl anabl a phobl sy'n defnyddio ffonau llinell sefydlog i gael mynediad at wasanaethau teleofal.

**27.** Dywedodd Constance Dixon fod Openreach yn gweithio gyda sefydliadau fel Age UK a Chyngor ar Bopeth ar gyfathrebu i sicrhau bod y cyfnod pontio mor ddi-dor â phosibl.

## Ein barn ni

Rydym yn cytuno mewn egwyddor y dylai pawb yng Nghymru allu cael mynediad at fand eang cyflym. Fel y nododd un o'n cyfranwyr, mae cyfathrebu digidol bellach yn rhan hanfodol o fywyd bob dydd. Mae byw heb fynediad at y rhyngwrwd bellach yn golygu bywyd sy'n llai cyfoethog, gyda llai o ddewis, a llai o fynediad at wasanaethau hanfodol.

Fel mater a gedwir yn ôl, dylai polisi telathrebu a'i gyllid fod yn fater i Lywodraeth y Deyrnas Unedig. Nid yw'n gynaliadwy i Lywodraeth Cymru ailgyfeirio cyllid i lenwi'r bylchau sy'n cael eu creu gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig. Fodd bynnag, nid yw hyn yn helpu'r bobl yng Nghymru sy'n byw mewn ardaloedd anodd eu cyrraedd. Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi dweud y bydd yn nodi cynigion ar gyfer mynd i'r afael â heriau cysylltedd i'r adeiladau anoddaf eu cyrraedd yn ddiweddarach yn 2022. Credwn ei bod yn ddyletswydd ar Lywodraeth Cymru i barhau i ymgysylltu â Llywodraeth y Deyrnas Unedig i sicrhau ei bod yn cyflawni ei rhwymedigaeth i ddarparu cyllid sy'n briodol ac yn ddigonol i alluogi'r 1% olaf i gael mynediad at fand eang gweddus.

Mae cyllid cysylltedd yn synhwyrol ac yn ddymunol lle mae'n cefnogi amcanion polisi eraill – er enghraifft, mewn perthynas â newid yn yr hinsawdd neu arloesi. Mae'r penderfyniad i ddod â band eang 5G drwy geblau ffeibr optig i ardaloedd anoddach eu cyrraedd ar Ynys Môn yn enghraifft dda o hyn. Rydym yn cefnogi'r dull gweithredu hwn.

Nodwn y pryderon a fynegwyd ynghylch y newid o Rwydwaith Ffôn Newid Cyhoeddus i Brotoocol Llais dros y Rhyngwrwd. Mae materion a allai fod yn rhai sylweddol i'r bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas. Gall eu bregusrwydd gael ei waethygu ymhellach os ydynt yn byw mewn ardal anghysbell neu wledig, gyda mynediad cyfyngedig at y rhyngwrwd ac, yn wir, mynediad cyfyngedig at wasanaethau eraill y gallant ddibynnu arnynt. Roeddem yn falch bod Ofcom yn teimlo ei fod yn gallu tawelu ein meddwl bod rhai materion, fel pobl sy'n dibynnu ar deleofal, yn cael eu hystyried. Serch hynny, credwn ei bod yn ddoeth oedi'r mudo nes bod y materion hyn wedi eu datrys.

## Argymhellion

**Argymhelliad 1.** Rhaid i Lywodraeth y Deyrnas Unedig ddatblygu mentrau cyhoeddus sy'n sicrhau bod yr 1% na allant gael mynediad at fand eang gweddus ar hyn o bryd yn gallu gwneud hynny. Dylai Llywodraeth Cymru ymgysylltu â Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar ddatblygu mentrau cyhoeddus newydd i sicrhau eu bod yn diwallu anghenion penodol Cymru. Dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn ôl ar gynnydd o fewn y 6 mis nesaf.

**Argymhelliad 2.** Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi ei huchelgais hirdymor i weld tua 30% o weithwyr Cymru yn gweithio gartref neu'n agos at eu cartref. Dylai Llywodraeth Cymru egluro a yw'n fodlon bod y lefel bresennol o fynediad at fand eang yng Nghymru yn gydnaws â'i huchelgais.

**Argymhelliad 3.** Dylai Llywodraeth Cymru barhau i gyllido prosiectau sy'n gwella cysylltedd lle mae gwella lefelau cysylltedd digidol yn cyfrannu at nodau polisi ehangach, fel ei huchelgais sero net.

**Argymhelliad 4.** Dylai Llywodraeth Cymru geisio sicrwydd gan Ofcom bod pryderon yn cael eu datrys ynghylch y mudo i Brotocol Llais dros y Rhyngrwyd. Dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn ar y cynnydd o fewn y chwe mis nesaf.



### 3. Cynhwysiant digidol

**28.** Os yw pobl eisiau mynediad at fand eang gweddus, ac y gallant dalu amdano, gall y mwyafrif helaeth danysgrifio i becyn band eang addas gan Ddarparwr Gwasanaeth Rhyngrwyd. Dengys gwaith ymchwil gan Lywodraeth Cymru,<sup>3</sup> fodd bynnag, nad yw 7% o oedolion ar-lein, ac mae mynediad at wasanaethau ar-lein yn adlewyrchu anghydraddoldebau eraill mewn cymdeithas: Yn 2018-19:

- Roedd 98 y cant o bobl 16-49 oed yn defnyddio'r rhyngrwyd o'i gymharu â 49 y cant o'r bobl sy'n 75 oed neu'n hŷn.
- Roedd y rhai mewn cyflogaeth yn fwy tebygol o fod â mynediad at y rhyngrwyd gartref (96 y cant) na'r rhai a oedd yn ddi-waith (84 y cant) neu a oedd yn economaidd anweithgar (78 y cant).
- Roedd 79 y cant o bobl â salwch hirsefydlog, anabledd neu wendid hirsefydlog yn defnyddio'r rhyngrwyd, o'i gymharu â 93 y cant o'r rhai heb gyflwr o'r fath.
- O'r rhai â chymwysterau addysgol ar lefel gradd ac uwch, roedd 96 y cant yn defnyddio'r rhyngrwyd; o'r rhai nad oedd ganddynt gymwysterau, roedd 68 y cant yn defnyddio'r rhyngrwyd.

**29.** Dywedodd Dr Phipps y dylai pawb yng Nghymru allu cael mynediad at wasanaethau band eang dibynadwy, fforddiadwy, diogel a chadarn. Roedd y pandemig wedi tynnu sylw at y ffaith bod cyfathrebu'n hanfodol i bobl barhau â'u bywydau bob dydd - siopa, astudio, gweithio, cadw mewn cysylltiad â ffrindiau a theuluoedd, a bancio. Mae cyfathrebu yn wasanaeth hanfodol yn yr un modd â dŵr neu ynni.

**30.** Nododd Elinor Williams, er bod argaeledd band eang cyflym iawn yng Nghymru bellach yn 96%, roedd adroddiad 'Cysylltu'r Gwledydd' Ofcom, a gyhoeddwyd yn 2020, yn dangos mai tua 63% oedd yn defnyddio band eang yng Nghymru. Awgrymodd Elinor Williams mai un ffordd o gau'r bwlch hwn fyddai drwy gyfathrebu gwell fel bod pobl yn deall yn well beth sydd ar gael iddynt a sut y gallant ei gael.

**31.** Cyfeiriodd Dr Sian Phipps at yr amcangyfrif o 7% o oedolion yng Nghymru nad oes ganddynt gysylltiad â'r rhyngrwyd. Dywedodd, o fewn y ffigur cyffredinol hwn, fod y ganran ar gyfer rhai grwpiau yn llawer uwch, ac yn achos pobl dros 75 oed roedd y ffigur yn codi i 33%.

---

<sup>3</sup> **Cynhwysiant digidol yng Nghymru (llyw.cymru)**

Awgrymodd Ben Allwright fod angen gwell dealltwriaeth o pam nad yw 7% o oedolion ar-lein. Byddai deall y rhesymau yn fodd o ddod o hyd i atebion.

### **Fforddiadwyedd a'r tariff cymdeithasol**

---

**32.** Awgrymodd Dr Sian Phipps fod angen gwell dealltwriaeth o pam nad yw'r nifer sy'n manteisio ar fand eang cyflymach yn uwch yng Nghymru. Gall fforddiadwyedd fod yn un rheswm.

**33.** Ychwanegodd Dr Phipps mai dim ond 1.2% o'r rhai oedd yn gymwys ar gyfer tariff cymdeithasol oedd wedi manteisio arno, yn ôl Ofcom. Awgrymodd y gallai hyn fod oherwydd diffyg ymwybyddiaeth o'r tariff, ond pwysleisiodd yr angen am ymgyrch ar y cyd i sicrhau bod pobl yn ymwybodol ohono a sut i gael gafael arno. Tynnodd Dr Phipps gymhariaeth â'r sector dŵr yng Nghymru, gan ddweud:

*"The Welsh Government's working very closely with UK Government to look at having perhaps a more consistent approach to social tariffs—very consistent eligibility criteria, make it easy to apply for a central funding pot, and also having an overall communications campaign. So, important lessons there to see what's happening in that sector, to see if there might be useful parallels for the communication sector."*

**34.** Dywedodd Ben Allwright nad oedd Ogi wedi lansio ei dariiff cymdeithasol eto, ond roedd y cwmni'n ystyried sawl mater, gan gynnwys sut i sicrhau lefel uchel o ddefnydd.

### **Cael gwared ar rwystrau o ran mynediad**

---

**35.** Mae Ffederasiwn Cenedlaethol Sefydliad y Merched Cymru hefyd wedi nodi diffyg ymwybyddiaeth ymhlith defnyddwyr o'r dewisiadau cysylltedd sydd ar gael iddynt:

*"Greater awareness is needed of the sources of support and current schemes available aimed at helping households and businesses to improve their connectivity."*

[...]

*Improving communication with consumers is vital. Service providers should keep consumers updated on the services they offer and give suitable advice on the broadband packages available for consumers to improve their connectivity."*

**36.** Pwysleisiodd Ben Allwright bwysigrwydd ymgysylltu â chymunedau a chymryd cyfrifoldeb fel gweithredwr hefyd i hysbysu a chefnogi pobl i fynd ar y daith ddigidol honno. Esboniodd fod Ogi, wrth ddechrau gweithio mewn ardal newydd, yn mabwysiadu 'ymagwedd hyperleol', sy'n golygu codi ymwybyddiaeth yn yr ardal leol a gweithio gydag elusennau a sefydliadau lleol. Esboniodd fod y cwmni'n ceisio gweithio gyda'r gymuned leol i godi'r disgwyliadau a'r ddealltwriaeth a'r ymwybyddiaeth fel y gall pobl ddeall o ddifrif beth sydd ar gael, yr hyn y gallant ei gael o'r technolegau newydd hyn, a sut y gallant fod o fudd iddynt a chael mynediad atynt, a gweithio hefyd ar bethau fel tariffau cymdeithasol i'w gwneud nhw'n fwy fforddiadwy ac ar gael yn haws.

## Ein barn ni

Rydym yn pryderu am y 7% o bobl yng Nghymru nad oes ganddynt gysylltiad â'r rhynggrwyd ac yn pryderu y bydd hyn yn llawer uwch ar gyfer rhai grwpiau penodol. Yn wyneb yr argyfwng costau byw parhaus a difrifol, mae risg y bydd mynediad at fand eang yn dod yn foethusrwydd na fydd llawer yn gallu ei fforddio. Bydd hyn yn cael effaith ddinistriol, gan ynysu rhai o'r bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas.

Roeddem yn pryderu wrth glywed mai dim ond 1.2% o'r rhai a oedd yn gymwys i gael tariff cymdeithasol oedd wedi manteisio arno, yn ôl Ofcom. Mae problem yma. Credwn y dylid ystyried dulliau o gynyddu'r nifer sy'n manteisio arno. Gallai hyn gynnwys cofrestru awtomatig, neu fecanweithiau i'w gwneud yn haws i ddefnyddwyr fanteisio ar y tariff cymdeithasol, o leiaf. Ymhellach, credwn fod yn rhaid gwella cyfathrebu â defnyddwyr fel eu bod yn ymwybodol o'r tariff cymdeithasol a sut i gael mynediad ato.

## Argymhellion

**Argymhelliad 5.** Dylai Llywodraeth Cymru gynnal trafodaethau â Llywodraeth y Deyrnas Unedig, Ofcom, a darparwyr i archwilio cyfleoedd i gynyddu'r nifer sy'n ymuno â'r tariff cymdeithasol. Dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn ar y cynnydd o fewn y chwe mis nesaf.

**Argymhelliad 6.** Dylai Llywodraeth Cymru gynnal gwaith i ystyried effaith yr argyfwng costau byw ar ei Strategaeth Ddigidol. Dylai adrodd yn ôl ar y casgliadau o fewn y 6 mis nesaf.

**Argymhelliad 7.** Dylai Llywodraeth Cymru esbonio sut y bydd ei Strategaeth Ddigidol yn dileu rhwystrau i grwpiau y mae diffyg cysylltedd digidol yn effeithio'n anghymesur arnynt.

## 4. Mentrau band eang cyhoeddus

### Mentrau Llywodraeth Cymru

#### Cyflymu Cymru a'i olynnydd

---

**37.** Daw gwelliannau mewn darpariaeth band eang cyflym iawn yn dilyn buddsoddiad cyhoeddus dan arweiniad Llywodraeth Cymru drwy ei rhaglen Cyflymu Cymru. Talwyd tua £220 miliwn i BT i godi'r lefelau band eang cyflym iawn i oddeutu 96 y cant o safleoedd rhwng 2014 a 2018. Ar hyn o bryd mae BT yn rhedeg cynllun olynol i Lywodraeth Cymru i gysylltu 39,000 o adeiladau ychwanegol. Mae Llywodraeth Cymru yn cyfrannu £24 miliwn o gyfanswm cyllid cyhoeddus o £59 miliwn. Dylai'r gwaith adeiladu fod wedi ei gwblhau erbyn 2022.

**38.** Dywedodd Constance Dixon fod cynllun Cyflymu Cymru wedi ei fwriadu'n wreiddiol ar gyfer ffeibr llawn i 26,000 o adeiladau. Cynyddodd hynny i 39,000 o adeiladau, gyda'r estyniad yn targedu ardaloedd awdurdodau lleol â'r lefel isaf o gysylltedd band eang. Dywedodd fod y cynllun wedi bod yn llwyddiannus a bod 30,000 o dai bellach wedi eu cysylltu.

**39.** Mewn datganiad ysgrifenedig a gyhoeddwyd ar 8 Gorffennaf 2022, cyhoeddodd y Gweinidog:

*"O ystyried yr heriau sy'n wynebu'r prosiect, rydym bellach wedi dod i gytundeb ag Openreach i ymestyn y prosiect hyd at 31 Mawrth 2023 i sicrhau bod cymaint o safleoedd â phosibl yn gallu elwa. Nifer y safleoedd sydd i'w hadeiladu o dan y cyflwyniad y cytunwyd arno yw 37,137. Er bod hyn ychydig yn is na'r 39,000 o safleoedd a ragwelwyd, rydym yn cydnabod bod nifer sylweddol o'r safleoedd a oedd wedi'u dad-gwmpasu eisoes wedi cael mynediad i fand eang gigabit o dan gynlluniau oedd yn cael eu harwain yn fasnachol. Yn ogystal, rydym yn cydnabod bod yn rhaid dad-gwmpasu rhai safleoedd lle'r oedd y costau gwirioneddol yn uwch na'r costau wedi'u modelu yr oedd Openreach wedi'u rhagweld yn wreiddiol, ac felly ni ellid eu cyfiawnhau o safbwynt gwerth am arian."*

#### Allwedd Band Eang Cymru

---

**40.** Mae cynllun Allwedd Band Eang Cymru Llywodraeth Cymru yn darparu hyd at £800 o grantiau i unigolion tuag at gostau gosod cysylltiadau band eang newydd ar gyfer cartrefi a busnesau yng Nghymru. Mae'n gynllun sy'n cael ei arwain gan alw ac nid oes ganddo dargedau cysylltedd.

**41.** Mewn datganiad ysgrifenedig a gyhoeddwyd ar 8 Gorffennaf 2022, dywedodd y Gweinidog:

*"Yn dilyn argymhelliad gan Gomisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru yn dilyn ei waith ar faterion seilwaith digidol, rydym wedi cynnal adolygiad o'r cynllun. Tynnodd yr adolygiad sylw at nifer o argymhellion y mae fy swyddogion yn gweithio drwyddynt, a gobeithiaf allu dweud mwy cyn bo hir."*

## **Cronfa Band Eang Lleol**

---

**42.** Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi sicrhau bod £10 miliwn ar gael i gefnogi awdurdodau lleol a mentrau cymdeithasol i gyflawni prosiectau band eang yn lleol drwy ei Chronfa Band Eang Lleol.

## **Llywodraeth y Deyrnas Unedig**

### **Prosiect Gigabit**

---

**43.** Mae Project Gigabit yn brosiect sy'n werth £5 biliwn, sy'n dod â phopeth mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn ei wneud i ddarparu cysylltedd digidol cyflym a dibynadwy at ei gilydd. Ym mis Mawrth 2022, dywedodd y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd:

*"rydym ni'n pwyso ar Lywodraeth y DU i sicrhau y rhoddir cyfran deg i Gymru o'r £5 biliwn o fuddsoddiad ar gyfer anghenion cartrefi a busnesau yng Nghymru. Mae trafodaethau yn mynd rhagddynt nhw ynghylch sut y caiff ei gyflawni a swyddogaeth Llywodraeth Cymru."*

**44.** Mae Llywodraeth Cymru a Building Digital UK (BDUK) yn bwriadu caffael darpariaeth bellach i wella argaeledd band eang gigabit.

### **Cynllun Talebau Band Eang Gigabit**

---

**45.** Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn cynnal Cynllun Talebau Band Eang Gigabit sy'n rhoi cyllid i adeiladau mewn ardaloedd gwledig tuag at gost gosod band eang gigabit.

**46.** Darparodd Llywodraeth Cymru gyllid ychwanegol o dan rai amgylchiadau, a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022. Dywedodd y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd fod "cyllid y DU wedi methu ag adlewyrchu gwir gost ei gyflwyno yn nhirwedd Cymru", a'i fod wedi cyfarfod â Llywodraeth y Deyrnas Unedig i "awgrymu y dylai Llywodraeth y DU adolygu trothwy cost uchaf y cynllun i adlewyrchu'r gost o ddefnyddio band eang gigabit mewn ardaloedd gwledig ac anghysbell".

**47.** Pan ofynnwyd iddo am hyn, dywedodd y Dirprwy Weinidog fod y cyllid atodol wedi dod i ben oherwydd bod Cymru 'yn cuddio embaras' Llywodraeth y Deyrnas Unedig, lle nad oedd ei chynllun talebau atodol yn ddigon i dalu'r costau cysylltedd ychwanegol yng Nghymru. Gan hynny, camodd Llywodraeth Cymru i mewn a llenwi'r bwloch hwnnw. Aeth ymlaen i ddweud y canlynol:

*"We can't keep doing that. We don't have the money to do that, because the UK Government is making us spend money in areas where we shouldn't be spending money. So, it was a judgment that we had to step away from this, because we simply didn't have the funding, and by doing it, we were letting the UK Government off the hook."*

**48.** Dywedodd ei fod yn awyddus i weithio gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar ddylunio cynllun a fyddai'n gweithio yng Nghymru, gan nodi ei fod eisiau gweithio mewn partneriaeth â nhw, ond nad lle Llywodraeth Cymru yw ymgymryd â phen trymaf y baich hwnnw.

**49.** Dywedodd Ben Allwright fod Ogi wedi defnyddio'r cynllun talebau gigabit. Roedd yn ddefnyddiol ond nid heb ei heriau. Dywedodd y canlynol am Ogi:

*"...where we want to enter areas that have a particularly high cost profile, either because we can't access existing duct infrastructure to bring the cost down, or the frontages of buildings are just very high, or the building's very remote, the use of the gigabit voucher scheme has been really, really good. ...the Welsh top-up as well, on top of that scheme, has been really good at making that money go further. So, our experience of that has been good, and we think that scheme should continue".*

**50.** Roedd Ben Allwright yn cydnabod bod llawer o eiddo gwledig yng Nghymru, a allai olygu os bwriedir mynd i'r afael â'r elfen anoddaf yn gyntaf, yna mae'n bosibl y gwelir nad yw'r cymorthdaliadau hyn yn ddigon. Ategodd Constance Dixon hyn, gan ddweud bod topoleg Cymru yn gwbl allweddol. Mae cyfran uwch o eiddo anodd eu cyrraedd yng Nghymru o gymharu â rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig.

**51.** Er gwaethaf hyn, dywedodd Ben Allwright fod Ogi wedi canfod bod y cynllun talebau, gan gynnwys cynllun atodol Cymru, yn ddigonol ar gyfer llawer o'r cymunedau y byddai'r cwmni'n edrych arnynt. Teimlai Constance Dixon hefyd fod y cynllun a'r arian atodol wedi bod yn llwyddiannus ar sail faint o gymunedau sydd wedi elwa. Nododd fod Openreach, yn ystod y ddwy flynedd flaenorol, wedi gweithio i gontract gyda thros 3,500 o eiddo, fel arfer yn ddefnyddio talebau gigabit.

## Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol

---

**52.** Ers mis Mawrth 2020, os na allwch gael cyflymder llwytho i lawr o 10 Mbps a chyflymder llwytho i fyny o 1 Mbps, gallwch ofyn am gysylltiad wedi ei uwchraddio gan BT dan y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol. Lle nad yw gwasanaeth fforddiadwy gyda'r nodweddion hyn ar gael neu ar fin dod ar gael ymhen deuddeg mis o dan gynllun cyllid cyhoeddus, mae'r cwsmer yn gymwys ar gyfer y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol os yw'r gost o ddarparu'r cysylltiad yn llai na £3,400. Os yw'r gost yn fwy na £3,400, rhaid i'r cwsmer dalu'r swm dros ben. BT yw darparwr y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol yn y Deyrnas Unedig ac eithrio yn Hull. Dengys ffigurau a gyhoeddwyd gan Ofcom yn 2021 bod 108 o orchmynion Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol wedi eu rhoi yng Nghymru. Dylai'r gorchmynion wasanaethu 689 o gartrefi.

**53.** Nododd Hywel Wiliam (Pwyllgor Cynghori Cymru Ofcom) y gallai cwsmeriaid gael mynediad at grant ychwanegol o £400 drwy gynllun grant mynediad band eang Cymru. Er gwaethaf hyn, byddai cysylltiad yn dal yn anfforddiadwy i lawer o bobl o ystyried costau uchel gwelliannau band eang mewn ardaloedd gwledig. Daeth i'r casgliad bod amcangyfrif o tua 7,000 o leoliadau, yn ôl ffigurau Ofcom, lle na fyddai'n bosibl darparu cysylltiad ffeibr band eang sefydlog sy'n ddigonol, hyd yn oed gyda'r holl arian hwnnw.

**54.** Mynegodd Rhian Connick (Pennaeth Ffederasiwn Cenedlaethol Sefydliadau'r Merched yng Nghymru) bryder na fyddai'r cyllid sydd ar gael yn ddigonol mewn rhai ardaloedd, yn enwedig yng nghefn gwlad Cymru. Byddai talu costau uwchlaw'r cap yn heriol, yn enwedig yng nghanol argyfwng costau byw.

**55.** Dangosodd ffigurau a gyhoeddwyd gan Ofcom yn 2021 bod 108 o orchmynion Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol wedi eu gosod yng Nghymru, a ddylai wasanaethu 689 o gartrefi. Eglurodd Elinor Williams fod y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol yn 'ymyriad pan fetho popeth arall' i ddarparu cysylltiadau o 10 Mbps. Fe'i cyflwynwyd ym mis Mawrth 2020 gyda BT yn ddarparwr. Dywedodd fod Ofcom yn amcangyfrif bod ychydig yn llai na 15,000 o gartrefi ac adeiladau yng Nghymru heb fynediad at yr hyn a elwir yn fand eang 'gweddus' ac a allai fod yn gymwys ar gyfer y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol.

**56.** Dywedodd Dr Sian Phipps fod y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau wedi annog Ofcom i adolygu'r cyflymder band eang fel rhan o'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol yn rheolaidd, ac esboniodd y gwnaed hyn hynny oherwydd y canlynol:

*"because, obviously, it doesn't offer faster speeds, and I think, in the past, we've raised concerns about the affordability of connecting those really hard-to-reach areas".*

Dyweddodd Hywel Wiliam fod yno "fuddiannau annisgwyl yn dod mas o'r cynllun, bod yna fwy o fuddsoddiad yn digwydd oherwydd ei fod yn fwy ymarferol, yn aml iawn, i roi cysylltiad ffeibr i mewn na jest rhoi'r isafswm".

## Ein barn ni

Fel y nodwyd gennym yn gynharach yn yr adroddiad hwn, rydym yn cytuno â safbwynt y Dirprwy Weinidog mewn perthynas â chyllido telathrebu, sy'n faes polisi nad yw wedi ei ddatganoli. Fodd bynnag, credwn fod yn rhaid i Lywodraeth Cymru ymgysylltu â Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar ddatblygu ymyriadau. Heb ymgysylltu ystyrion, beth sydd i atal Llywodraeth y Deyrnas Unedig rhag datblygu cynllun arall nad yw'n diwallu anghenion Cymru? Byddem yn ddiolchgar pe byddai'r Dirprwy Weinidog yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn ymhen 6 mis ar gynnydd y trafodaethau hyn.

Mae penderfyniad Llywodraeth Cymru i atal ei chyllid atodol ar gyfer y cynllun talebau gigabit yn golygu bod bwch y mae angen mynd i'r afael ag ef. Rydym yn pryderu am yr effaith a gaiff hyn ar ymdrechion i wella cysylltedd i'r rhai anoddaf eu cyrraedd. Oherwydd topograffeg Cymru, mae cyfran uwch o eiddo anodd eu cyrraedd yng Nghymru o gymharu â rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig. Credwn y dylai Llywodraeth y Deyrnas Unedig godi'r symiau sydd ar gael i unigolion a busnesau o dan y cynllun talebau gigabit i gau'r bwch ac i fynd i'r afael ag anghenion penodol Cymru.

Nodwn fod y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol wedi cael effaith gadarnhaol, yn enwedig drwy osod ffeibr llawn yn hytrach na'r isafswm cysylltiad 10 Mbps. Fodd bynnag, mae gennym nifer o bryderon ynghylch y mater hwn. Yn gyntaf, rydym yn pryderu y bydd angen i ddefnyddwyr yn yr ardaloedd anoddaf eu cyrraedd wneud cyfraniad ymhell uwchlaw'r cap. Yn syml, bydd hyn yn anfforddiadwy i lawer. Yn ail, cyfrifwyd y cap cyn i'r costau ddechrau codi i'r entychion. Credwn fod rhinwedd mewn edrych eto ar lefel y cap, i asesu a yw'n briodol yn yr hinsawdd ariannol sydd ohoni.

## Argymhellion

**Argymhelliad 8.** Dylai Llywodraeth Cymru gynnal trafodaethau gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig ynghylch codi'r symiau sydd ar gael i unigolion a busnesau yng nghefn gwlad Cymru o dan y Cynllun Talebau Gigabit.



**Argymhelliad 9.** Dylai Llywodraeth Cymru gynnal trafodaethau gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig ynghylch lefel y cap ar osodiadau o dan y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol gyda'r nod o sicrhau ei fod yn adlewyrchu cynnydd sylweddol mewn costau a'r argyfwng costau byw parhaus.

## 5. Cystadleuaeth fasnachol

**57.** Mae adroddiad y Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol ar y seilwaith cyfathrebu digidol yn tynnu sylw at oruchafiaeth Openreach yn y farchnad seilwaith band eang, a sut y gallai hyn fod yn arafu'r broses o gyflwyno band eang masnachol yng Nghymru:

*"Yr ydym yn pryderu nad yw'n ymddangos bod Cymru'n denu buddsoddiad gan y genhedlaeth newydd o weithredwyr ffeibr masnachol i'r cartref llai sy'n dod i'r amlwg mewn mannau eraill yn y Deyrnas Unedig. Mae'r math hwn o fynediad yn ddeniadol oherwydd byddai'n cyfrannu'n uniongyrchol at ehangu'r ddarpariaeth ffeibr yng Nghymru ac oherwydd gallai gynyddu'r pwysau ar Openreach a'i arwain i ailddyrannu mwy o'i adnoddau i Gymru. Gallai hefyd gyflwyno rhywfaint o gystadleuaeth i'w chroesawu yn y tendrau nesaf ar gyfer cymhorthdal cyhoeddus ar gyfer ffeibr i'r seilwaith cartrefi yng Nghymru."*

**58.** Mewn ymateb i gwestiwn am faint o ddewis sydd ar gael o ran darparwyr seilwaith, dywedodd Ben Allwright mai dim ond un darparwr mawr sydd gan gyfran fawr o Gymru mewn gwirionedd, sef Openreach. Dywedodd fod Openreach yn cael ei reoleiddio, yn darparu cynnyrch cyfanwerthu, ac mae myrdd o fanwerthwyr wedyn yn darparu gwasanaethau i ddefnyddwyr. Nododd fod gan rai ardaloedd trefol fynediad at Virgin Media fel darparwr seilwaith amgen. Dywedodd:

*"Ultimately, we want to bring in an alternative infrastructure—genuinely competitive infrastructure for public services, for consumers, for businesses et cetera. We are great believers in infrastructure competition. We've raised £200 million for our first plan. That's a first phase of a plan to roll out to at least 500,000 premises, and we believe that is the best way to give everybody more choice and it should benefit everybody."*

**59.** Dywedodd Elinor Williams fod gwelliannau o ran cystadleuaeth a dewis wedi deillio o rai o'r penderfyniadau rheoleiddio mae Ofcom wedi eu gwneud yn yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Nod y penderfyniadau hynny oedd hyrwyddo buddsoddiad mewn rhwydweithiau gigabit. Roedd rhai yn cynnwys defnyddio gwahanol ddulliau rheoleiddio yn dibynnu ar lefel y gystadleuaeth yn yr ardal honno o'r Deyrnas Unedig. Mae'r adolygiad marchnad o delathrebu cyfanwerthol sefydlog presennol yn rhedeg o 2021 i 2026, a dywedodd fod arwyddion cynnar yn dangos bod rhai o'r penderfyniadau a wnaethpwyd yn y ddogfen honno yn gweithio a'u bod yn hyrwyddo buddsoddiad.

**60.** Credai Constance Dixon fod newidiadau yn yr amgylchedd rheoleiddio yn ei wneud yn fwy deniadol i adeiladwyr amgen, yn enwedig lle mae mynediad seilwaith goddefol dan sylw. Roedd rhoi mynediad i ddarparwyr at y 'pibelli a'r polion' sydd gan Openreach yn sicrhau dwy fantais allweddol:

*"No. 1 is it's about, you know, competition is good, and the more that is available, the more that we can get to cover all of Wales, so we're really welcoming competition in that sense; secondly, the disruption is minimised as well, in terms of digging up roads, putting up poles, so that sharing-of-infrastructure approach is really important."*

**61.** Dywedodd Ben Allwright fod mynediad at seilwaith pibelli a pholion Openreach wedi arwain at fwy o ddewis. Dywedodd fod hyn wedi arwain at fuddion enfawr oherwydd ei fod wedi dod â masnacholdeb a hyfywedd gosod seilwaith newydd o fewn cyrraedd cymaint mwy o adeiladau yn y Deyrnas Unedig, ac wedi gweddnewid y sefyllfa'n llwyr.

**62.** Dywedodd Constance Dixon fod Openreach yn gweithio gydag Adran Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar hawliau uwchraddio awtomatig, ac aeth ymlaen i ddweud y canlynol:

*"where we do have access via wayleaves for poles, if we've got a wayleave for a copper infrastructure, we really want to be able to automatically upgrade to full-fibre".*

**63.** Dywedodd Ben Allwright fod tua 140 o weithredwyr rhwydwaith amgen yn y Deyrnas Unedig.

**64.** Ychwanegodd fod y farchnad yn fywiog ac eisoes yn dod â newydd-ddyfodiaid i Gymru. Nid Ogi fydd y newydd-ddyfodiad cyntaf na'r olaf yng Nghymru yn ei farn ef. Dywedodd y bydd bodolaeth cymorthdaliadau ar gyfer y rhai anoddaf eu cyrraedd yn denu mwy o weithredwyr, a daeth i'r casgliad a ganlyn:

*"the work that the Welsh Government did on the trunk road concession, which is a concession contract that Ogi won that allows us to install fibre cables in existing ducts alongside the motorways and fast roads, again, has been a real game-changer for us. So, those kinds of initiatives—access to existing infrastructure, welcoming in new operators, and Project Gigabit—will all bring the market to Wales."*

**65.** Dywedodd Constance Dixon fod yn rhaid i gwmnïau sy'n ystyried buddsoddi yng Nghymru ystyried cost adeiladu a faint o bobl y mae modd gwerthu eich gwasanaethau iddynt. Gallai sawl ffactor helpu i leihau costau, a thrwy hynny annog buddsoddi:

*"we've estimated that it's thousands and thousands of permits for the local authorities when we want to work on a road, and, actually, could we have a slight tweak and, rather than having an individual permit for every single thing that we do, could we have flexi permits where you might have a cluster of roads over a certain period and you can work in that period, so that you're stopping that stop-start scenario of building up fibre and being much more efficient...I would say mandating full fibre in homes is really key, because if you've got those rural homes and we can get fibre there, then it's easier to spread from that point."*

## Tasglu chwalu rhwystrau

**66.** Yn ei adroddiad ar seilwaith cyfathrebu digidol (2020), galwodd y Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol am "dasglu chwalu rhwystrau" i wella'r broses o gyflwyno seilwaith digidol.

**67.** Mynegodd Dr Sian Phipps bryder bod cynrychiolaeth defnyddwyr terfynol ar goll o'r tasglu. Dywedodd Rhian Connick ei bod yn gobeithio y byddai'r tasglu yn gwranddo, a'i fod yn dod at y defnyddiwr hefyd i glywed beth yw'r materion o bwys, a'i fod yn cyfathrebu â'r defnyddiwr yn ogystal â'r diwydiant. Cytunodd Hywel Wiliam ei bod yn "bwysig i ni gael y corff yma, ond hefyd dwi'n dilyn eu hargymelliadau nhw ei fod e'n bwysig eu bod nhw'n gosod targedau. Er enghraifft, maen nhw'n galw ar y corff newydd yma i osod targed ynglŷn ag argaeledd gwasanaethau 5G, er enghraifft. Mae hynny'n bwysig iawn, yn dilyn y pwyntiau rŷn ni wedi eu gwneud yn gynt ynglŷn â beth rŷn ni'n credu yw pwysigrwydd y gwasanaethau symudol".

**68.** Ar 8 Gorffennaf, cyhoeddodd y Gweinidog Newid Hinsawdd ddatganiad ysgrifenedig yn dweud:

*"Mae'r tasglu, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r diwydiant band eang a symudol, cyrff y sector cyhoeddus yng Nghymru, Llywodraeth Cymru, a'r rheoleiddiwr Ofcom, wedi canolbwyntio ar bum maes allweddol: cynllunio, rheoleiddio, asedau cyhoeddus, gwaith stryd a chyfathrebu. Mae'r pum gweithgor a sefydlwyd gennym i archwilio'r materion hyn wedi cwblhau eu gwaith i nodi rhwystrau ac i gynnig atebion posibl i fynd i'r afael â'r rhwystrau hynny. Bydd bwrdd y tasglu yn cyfarfod ym mis Gorffennaf i*

*ystyried canfyddiadau'r gweithgor ac i wneud argymhellion i Lywodraeth Cymru. Bwriadaf gyhoeddi eu hargymhellion pan fyddaf yn eu derbyn."*

**69.** O ran aelodaeth y tasglu, dywedodd y Dirprwy Weinidog wrth y Pwyllgor, o ystyried ei gylch gwaith, nad oedd o'r farn bod 'defnyddiwr terfynol' yn safbwynt arbennig o ddefnyddiol i'w gynnwys yn y drafodaeth honno. Eglurodd mai yng nghyd-destun gwaith y tasglu, y 'defnyddwyr' yw'r cyfleustodau a'r cwmnïau a'r awdurdodau lleol sy'n ceisio llywio'r dirwedd gymhleth honno. Gorffennodd drwy ddweud bod y defnyddiwr terfynol yn cael lle canolog iawn yn Strategaeth Ddigidol Llywodraeth Cymru.

## Cydweithredu rhwng y sectorau cyhoeddus a phreifat

**70.** Yn ei gyflwyniad ysgrifenedig, tynnodd Ogi sylw at fanteision cydweithredu rhwng y sectorau cyhoeddus a phreifat, gan ddweud:

*"It is no coincidence that Ogi's rollouts focus on areas where the public sector is embracing the potential of digital. Pembrokeshire's Digital Broadband Delivery Programme Team are vital links between providers, contractors and the communities where investment is being made, while the WG has also led the way with the South Wales Trunk Road Concession."*

**71.** Dywedodd Ben Allwright fod Ogi wedi cael profiadau cadarnhaol yn cydweithio â sawl awdurdod lleol, gyda Sir Benfro yn enghraifft o arfer gorau. Dywedodd fod yr awdurdod lleol wedi penderfynu y dylai ffeibr llawn a chysylltedd fod yn flaenoriaeth strategol:

*"They do a great job of pulling together the private sector, the communities involved, the available subsidies, and they help, really, to generate awareness, help build demand and help find solutions, basically, between those parties to actually address each community's needs."*

**72.** Ychwanegodd fod hyn wedi gweithio'n dda, ac y gellid gwneud mwy o gynnydd pe bai awdurdodau lleol eraill yn cymryd agwedd debyg.

## Cynllunio

**73.** Dywedodd Constance Dixon po fwyaf o gartrefi sy'n cael eu hadeiladu heb gysylltedd ffeibr llawn, mae'r ganran yn mynd i aros ar 95 y cant/96 y cant, a hynny oherwydd y canlynol:

*"because for every one that we try really, really hard to connect, through USO, though vouchers, through commercial, more are popping up without anything".*

Dywedodd fod Openreach yn gweithio gyda'r holl brif ddatblygwyr a bod ffeibr llawn yn cael ei gynnig am ddim ar gyfer plotiau o ugain neu ragor o dai. Eglurodd fod Openreach yn gofyn am gyfraniad bach gan y datblygwr at adeiladu ffeibr llawn i leiniau o ddau neu ragor o dai. Mater allweddol yng Nghymru yw'r nifer uwch o ddatblygiadau bach. Roedd yn cefnogi'r gofyniad i bob adeilad newydd gael y seilwaith ar gyfer technoleg gigabit. Roedd hyn eisoes yn wir ar gyfer tai cymdeithasol yng Nghymru, ond dylai ymestyn i bob deiliadaeth.

**74.** Dywedodd Ben Allwright fod darparwyr gwasanaethau, ar hyn o bryd, yn dibynnu ar ddatblygwyr tai i ymgysylltu â nhw. Dywedodd mai yr hyn yr hoffai ei weld yw newid yn y ddeddfwriaeth ynghylch adeiladu cartrefi fel bod yn rhaid darparu cysylltiad ffeibr fel rhan o'r gwaith adeiladu hwnnw.

**75.** Nododd fod datblygwyr mwy, yn gynyddol, yn ymwybodol o gysylltedd fel problem. Dywedodd fod Persimmon Homes wedi creu ei gwmni darparwyr gwasanaethau rhyngwyd ei hun mewn ymateb. Dywedodd Ben Allwright ei fod yn falch y byddai perchnogion tai yn gallu cael mynediad at fand eang cyflym iawn ond ei fod yn bryderus y gallai eu dewis o ddarparwr gael ei gyfyngu.

## Ein barn ni

Roeddem o'r farn bod yr awgrym gan gyfranwyr i wneud cysylltedd ffeibr llawn yn ofyniad ym mhob datblygiad tai newydd yn ddefnyddiol. Rydym yn cefnogi'r awgrym ac yn credu y dylai Llywodraeth Cymru archwilio sut y gellir cyflwyno gofyniad o'r fath yng Nghymru.

Roedd gennym ddiddordeb mewn clywed bod datblygwyr tai yn ystyried cysylltedd digidol pan fyddant yn cynllunio datblygiadau. Nodwn fod un wedi sefydlu ei ddarparwr gwasanaeth rhyngwyd ei hun. Er mai'r bwriad o bosibl oedd gwella'r cynnyrch ar gyfer perchnogion tai, rydym yn pryderu am y potensial i ddatblygwyr glymu perchnogion tai i mewn i'w darparwyr gwasanaethau rhyngwyd eu hunain. Gallai hyn o bosibl gyfyngu ar y dewis sydd ar gael i berchnogion tai a gwneud y farchnad yn llai cystadleuol. Credwn fod angen i Lywodraeth Cymru gadw golwg ar hyn.

Rydym yn cefnogi sefydlu'r "tasglu chwalu rhwystrau" i ystyried ffyrdd o wella'r broses o gyflwyno seilwaith digidol. Nodwn y bydd y tasglu yn ystyried nifer o'r pryderon a fynegwyd gan gyfranwyr at waith y Pwyllgor yn y maes hwn. Bydd y tasglu yn cyhoeddi ei adroddiad yn fuan. Rydym yn ddiolchgar bod y Gweinidog wedi ymrwymo i gyhoeddi'r canfyddiadau'n llawn.

Roeddem yn falch o glywed am brofiadau cadarnhaol darparwyr gwasanaethau rhyngwyd yn gweithio gydag awdurdod lleol Sir Benfro. Credwn y byddai'n ddefnyddiol i'r arfer da hwn gael

ei rannu ag awdurdodau lleol eraill, ac roeddem yn falch bod y swyddog a oedd gyda'r Dirprwy Weinidog wedi awgrymu y gallai hyn gael ei ystyried fel rhan o adroddiad y "tasglu chwalu rhwystrau."

## Argymhellion

**Argymhelliad 10.** Dylai Llywodraeth Cymru nodi ei safbwynt ar ddeddfu i fynnu cysylltedd ffeibr llawn ar gyfer pob datblygiad tai newydd. Dylai Llywodraeth Cymru hefyd archwilio sut y gall sicrhau nad yw datblygwyr yn gallu atal perchnogion tai rhag gallu cael gafael ar ddarparwyr eraill.